

PROFIAD MYFYRIWR RHWYDWAITH 75



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

Dechreuais yng Ngwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) ym mis Medi 2018 yn rhan o gynllun 5 mlynedd Rhwydwaith 75 ar y cyd â Phrifysgol De Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys myfyrwyr sy'n ymgymryd â gradd o'u dewis ac yn gweithio'n rhan amser o fewn yr alwedigaeth honno. Dros y 4 blynedd diwethaf rwyf wedi bod yn astudio fy ngradd yn y gyfraith a chwrs Ymarfer y Gyfraith ar y cyd ac yn gweithio o fewn nifer o dimau gwahanol yn adran y gyfraith PCGC.

Mae'r cyfle i gymryd rhan yng nghynllun Rhwydwaith 75 wedi newid fy mywyd. Rwyf wedi gallu gweithio a chael profiad o swydd cyfreithiwr cyn gorffen fy nghwrs prifysgol. Mae'r cwrs wedi rhoi dechrau da i mi yn y byd gwaith a fydd, yn fy marn i, yn werthfawr iawn i mi yn y dyfodol. Yn aml iawn yn y proffesiwn cyfreithiol bydd darpar gyflogwyr yn chwilio am brofiad yn ogystal â graddau da ond gall fod yn anodd dod o hyd i brofiad gwaith wrth astudio. Mae Rhwydwaith 75 yn dileu'r pryderon hynny ac yn helpu i leddfu'r pwysau o ran profiad gwaith.

Wrth weithio gyda Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC, cefais y cyfle i weithio o fewn y tîm Masnachol a Rheoleiddio a thra oeddwn yno, dechreuais deimlo angerdd tuag at faes y gyfraith. Bu'r tîm yn gefn i mi ar bob lefel a chefais gymorth ganddynt i ddatblygu fy sgiliau ym maes Cyfraith Fasnachol. Rwyf wedi gallu gweithio ar lawer o achosion a phrosiectau proffil uchel, ac mae'r ffaith yr ymddiriedwyd yno i gymryd y fath gyfrifoldeb yn ganmoliaeth fawr. Trwy gael yr ymddiriedaeth i weithio ar achosion o'r fath, rwyf wedi ennill cyfoeth o wybodaeth sydd hefyd wedi helpu yn fy astudiaethau.

Rwyf nawr yn mynd i mewn i'm blwyddyn olaf o'r cynllun, ac o ganlyniad rwyf wedi symud ymlaen yn broffesiynol ac yn academiaidd ac yn teimlo'n hyderus yn gweithio'n annibynnol ac yn cymryd cyfrifoldeb am fy llwyth gwaith fy hun. Gallaf osod terfynau amser i mi fy hun a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn brydlon a bod y gwaith hwnnw o safon uchel. Rwyf nid yn unig wedi symud ymlaen yn broffesiynol ond hefyd yn bersonol. Mae Cyfreithiol a Risg wedi rhoi llawer iawn o hyder i mi. Oherwydd y datblygiad hwnnw, rwyf bellach yn bennaeth y Pwyllgor Cymdeithasol lle'r ymddiriedir yno i gynllunio a threfnu digwyddiadau i hybu morâl a gwneud cysylltiadau ar gyfer ein cydweithwyr.

Pe bawn yn rhoi cyngor i unrhyw ddarpar ymgeiswyr Rhwydwaith 75 newydd, byddwn yn cynghori nad yw ar gyfer y gwangalon. Mae'r cynllun yn waith caled iawn, ac mae'n rhaid i chi fod yn barod i fod yn drefnus ac yn llym gyda chi'ch hun. Fodd bynnag, mae'r gwaith caled yn talu ar ei ganfed ac mae'r buddion yn werth y gwaith.



**Amy
Bartlett**

**Myfyriwr
Rhwydwaith 75
2018-2023**

**Ymarfer y
Gyfraith
Rhwydwaith 75**



Grando a Dysgu



Cymryd Cyfrifoldeb



Gweithio Gyda'n Gilydd



Arloesi

Gwerthoedd craidd PCGC